Iechyd a Gofal Cymdeithasol

(Tystysgrif Estynedig BTEC Edexcel – Lefel 2) (Drafft)

Pwy fydd yn darparu'r cwrs hwn?
Bydd y cwrs hwn yn cael ei ddarparu gan Coleg Meirion Dwyfor, Pwllheli.

Beth fyddai'n ddysgu?
Bydd y cwrs hwn yn dy helpu i ddysgu:
- Am wahanol swyddi a'r math o yrfaoedd ar gael i ti oddi mewn i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol;
- Am gyfathrebu a hawliau'r unigolyn o fewn iechyd a gofal cymdeithasol;
- Am anghenion yr yr unigolyn o fewn iechyd a gofal cymdeithasol;
- Am amrywiaeth diwylliannol o fewn iechyd a gofal cymdeithasol;
- Am ddatblygiad hyd oes dynol.

Sut fyddai'n dysgu?
Byddi'n cael dy ddysgu gan ddarlithwyr iechyd a gofal profiadol. Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau dosbarth ac ymarferol. Byddi'n cael cyfle i baratoi ac ymarfer dy sgiliau cyn i ti gael dy asesu fel dy fod yn gwybod ac yn deall beth sy'n rhaid i ti ei wneud.

Sut fyddai'n cael fy asesu?
Byddi'n paratoi gwaith cwrs ac aseiniadau fydd yn cael eu hasesu gan dy diwtor cwrs yn bennaf gyda pheth asesu gan gorff allannol. Ni fydd raid i ti sefyll arholiad ar y cwrs hwn.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y cwrs yma?
Ar ôl Blwyddyn 11, gelli ddal ati i orffen Diploma Cyntaf BTEC Lefel 2 neu symud ymlaen i Ddiploma Cenedlaethol BTEC ar Lefel 3. Neu mi allet ti wneud NVQ neu Brentisiaeth Fodern ar Lefel 2 neu 3 mewn maes perthnasol. Ar ôl hynny, mi fyddi di'n barod i weithio mewn swydd addas o dan oruchwyiaeth.
Ond, os nad wyt ti awydd dal ati gyda iechyd a gofal cymdeithasol, mi allet ti ddewis cwrs arall addas, gan ddibynnu beth hoffet ti wneud nesaf. Bydd dy gynghorydd gyrfa yn gallu dy helpu i wneud dy ddewis pan fyddi di'n gadael yr ysgol.

Syniadau am swyddi.
- Nyrs Deintyddfa
- Cymhorthydd Gofal Iechyd
- Nyrs
- Therapydd Galwedigaethol
- Gweithiwr Cymdeithasol

Am fwy o wybodaeth?
I wybod mwy am y cwrs hwn, dos i'r wefan yma:
[i'w gadarnhau] neu cysyllta gyda: www.careerswales.com